


CADW PELLTER CYMDEITHASOL



Archebion parseli bwyd a wnaed gyda chyflenwyr:


- **13,872** hyd at 27 Mehefin

Nifer y danfoniadau y ceisiwyd eu gwneud:

- **119,721** hyd at 26 Mehefin
- **99%** wedi'u rhoi i breswlydd neu eu gadael ar garreg y drws
- **17,694** ohonynt yn ddanfoniadau cyntaf llwyddiannus*

* uwch na'r cyfanswm archebion mwyaf diweddar am fod rhai pobl wedi gofyn i ganslo'r danfoniadau ar ôl derbyn un neu fwy o barseli bwyd

[Cefndir pellach ar barseli bwyd i'r rhai sy'n agored iawn i niwed](#)



Y GRONFA CYMORTH DEWISOL

Rhwng 18 Mawrth a 25 Mehefin:


Gwnaed **30,332** o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o **£1,879,180**

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth. Mae'r rhesymau cysylltiedig â COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys: Gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith; Oedi o ran hawlio budd-dal; Costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Yn dilyn cyhoeddiad 1 Mai o fwy o gyllid, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, wrth ddelio â hawliadau caledi COVID-19 [Cefndir pellach i'r CCD](#)

Nifer ddyddiol o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng (wythnos sy'n gorffen ar ddydd Iau)

● a. Taliadau yn ymwneud â COVID-19 ● b. Taliadau Cymorth Mewn Argyfwng arferol




CYMORTH I FUSNESAU

Hyd yn hyn mae awdurdodau lleol wedi cyhoeddi **60,400** o grantiau ardrethi busnes Covid-19 gwerth cyfanswm o **£729m**.

Derbyniodd Cynllun Benthyciad Busnes Cymru COVID-19 y Banc Datblygu **1,608** o geisiadau gwerth cyfanswm o **£103m**. Ar 22 Mehefin, mae **1,390** o fusnesau ledled Cymru wedi derbyn cyllid sy'n dod i gyfanswm o dros **£94m** (£82.4m wedi'i dynnu).

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi derbyn bron i **6,900** o geisiadau micro-fusnes gwerth cyfanswm o **£66.9m**, a bron i **2,600** o geisiadau i fusnesau bach a chanolig gwerth cyfanswm o **£142.8m**. Mae'r Gronfa Busnes Mwy wedi derbyn gwerth dros **£26m** o geisiadau, gyda cheisiadau pellach yn cael eu prosesu sy'n dangos y bydd y ceisiadau'n debygol o gynyddu i tua **£28m**.

Rhagor o gefndir ar [Cymorth i Fusnesau](#).



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Data ar ardrethi busnes fel yr oedd ar 29/06/20

data Banc Datblygu Cymru fel yr oedd ar 22/06/20

Noder: Data ERF wedi ei oedi am ganol dydd 27/04/20

Cronfa Cadernid y Trydydd Sector

Yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sydd angen help i ymdopi â'r argyfwng hwn er mwyn talu eu biliau a lliniaru problemau llif arian.

- Mae dros **55 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£2.17 M wedi'i dalu** drwy gronfa cadernid y trydydd sector.

Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol

Yn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned sy'n cydgysylltu'r ymateb yr ydym wedi'i weld ar draws Cymru i'r cais am wirfoddolwyr, gan eu helpu i dalu treuliau personol eu gwirfoddolwyr.

- Mae dros **100 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£5.17 M wedi'i dalu** drwy gronfa argyfwng y gwasanaethau gwirfoddol.

Rhagor o gefndir i [Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector](#)